# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Croeso Ltd**

**Cartref Croeso Ltd**
**Pencader**
**SA39 9HL**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Croeso Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir. | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Croeso Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [20 Ionawr 2022Nodi â Llaw] |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus ac yn cael gofal da yn Cartref Croeso. Mae yno dîm cryf sy'n gweithio'n galed i greu awyrgylch teuluol ac maent yn hyrwyddo nodau llesiant gydag agwedd gadarnhaol a chyfeillgar. Mae proses gofnodi cynlluniau personol electronig ac ysgrifenedig ar waith ac maent yn fanwl. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau y gall y bobl gyfrannu at y broses o ddatblygu ac adolygu eu gofal. Caiff y bobl eu hannog i wneud dewisiadau dyddiol a gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau gyda naws naturiol yn y cartref ac o'i amgylch. Mae'r staff yn galluogi'r bobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt ac yn hyrwyddo annibyniaeth. Mae amseroedd bwyd yn gyfle dymunol i'r bobl gymdeithasu ac mae'n ymddangos fod y prydau o safon uchel. Er bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi a'i chofnodi'n effeithiol, mae angen gwella'r broses storio meddyginiaeth yn yr oergell. Mae cymhareb staffio dda yn sicrhau bod y bobl yn derbyn gofal a chymorth mewn modd amserol. Mae'r staff gofal yn cynnig cymorth mewn ffordd gyfeillgar sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac maent yn deall eu hanghenion a'u dewisiadau unigol.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol, yn lân ac yn groesawgar. Mae'r gwiriadau cynnal a chadw yn sicrhau bod yr amgylchedd, ei gyfleusterau a'i gyfarpar yn parhau'n ddiogel i'w defnyddio. Mae pob ardal, gan gynnwys y cyfleusterau awyr agored yn hygyrch. Caiff gwybodaeth gyfrinachol ei storio'n ddiogel ac mae mynediad i'r gwasanaeth yn ddiogel. Caiff y staff gofal hyfforddiant craidd a hyfforddiant arbenigol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith. Mae gwiriadau cyn cyflogi yn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae adborth y staff yn gadarnhaol iawn am eu rolau a'r cymorth y maent

yn ei gael gan y tîm rheoli. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda er mwyn sicrhau bod safon yr arferion yn parhau'n dda.

.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae'r staff yn gwrtais a charedig ac yn adnabod y bobl yn dda. Gwelsom fod gan y staff a'r bobl gydberthynas dda â'i gilydd ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae gan y bobl gydberthnasau da â'u cydbreswylwyr a'r staff sy'n rhoi cymorth iddynt. Mae'r amgylchedd ffisegol yn cefnogi llesiant y bobl. Mae'r gwasanaeth yn lle dymunol i fyw ynddo; mae'r ystafelloedd gwely wedi cael eu haddurno mewn ffordd hyfryd ac yn adlewyrchu chwaeth bersonol y bobl. Mae amrywiaeth o ardaloedd cymunedol ar gael i'r bobl, yn ogystal â phreifatrwydd eu hystafelloedd eu hunain.

Mae'r gwasanaeth yn darparu'r “Cynnig Rhagweithiol” ar gyfer y Gymraeg ac mae cyfran uchel o'r staff yn cyfathrebu yn Gymraeg. Gwelsom fod cofnod o ddewis iaith y bobl yn eu dogfennaeth gofal. Clywsom y bobl yn canu, yn sgwrsio ac yn rhannu jôcs yn Gymraeg. Gall y staff gynnig sicrwydd yn Gymraeg a gwelsom hyn wrth iddynt dawelu unigolyn. Gallai dogfennaeth gofal a llenyddiaeth gael eu darparu yn Gymraeg ar gais. Mae'r cartref yn dathlu sawl digwyddiad diwylliannol Cymraeg ac yn sicrhau bod rhaglenni teledu/radio ar gael yn Gymraeg yn ôl y gofyn.

Caiff dewisiadau personol eu deall a'u nodi gan y staff. Mae'r gofal a'r cymorth yn adlewyrchu diddordebau a dewisiadau unigol y bobl. Mae’r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses gychwynnol o ddatblygu eu cynlluniau gofal. Er bod adolygiadau o'r gofal yn cael eu cyflawni, nid ydynt yn dangos tystiolaeth o'r canlyniadau nac yn adlewyrchu newidiadau a rôl y bobl yn yr adolygiadau. Mae'r amseroedd bwyd yn brofiad cymdeithasol cadarnhaol gyda phawb yn eistedd o amgylch bwrdd bwyta taclus. Mae rhai pobl yn dewis bwyta eu prydau yn eu hystafelloedd eu hunain. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgysylltu â'r bobl yn ystod ei ymweliadau â'r gwasanaeth a cheisir barn y bobl fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd.

Mae'r gwasanaeth yn ystyried iechyd meddwl ac iechyd corfforol y bobl. Mae apwyntiadau rheolaidd ac atgyfeiriadau amserol yn sicrhau bod y bobl mor iach ag y bo modd. Mae niferoedd digonol o staff yn cefnogi'r bobl er mwyn cael y gofal cywir, ar yr adeg gywir. Gwnaethom siarad â gweithwyr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth a wnaeth ganmol y staff, eu sylw at fanylder ac amseroldeb eu hatgyfeiriadau.

Mae'r bobl yn gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol wedi'u trefnu a gweithgareddau a gynhelir yn naturiol fel rhan o'u trefn ddyddiol. Ar ddiwrnod yr arolygiad, cymerodd y bobl ran mewn gweithgaredd cyd-ganu i gerddoriaeth fodern heb gael eu hannog, a oedd yn llawn hwyl a symud. Roedd te prynhawn wedi cael ei drefnu yn ddiweddarach yn yr wythnos i ddathlu pen-blwydd, gyda'r deisen wedi'i haddurno i adlewyrchu hobïau’r unigolyn. Roedd y dathliadau pen-blwydd eraill yn cynnwys taith i gyngerdd band teyrnged roc.  Mae aerobeg cadair, therapi anifeiliaid, Jenga, bowlio, a garddio oll yn weithgareddau rheolaidd y gall y bobl gymryd rhan ynddynt os dymunant.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae ystod o bolisïau cyfredol yn amlinellu ac yn atgyfnerthu arferion gofal cadarnhaol. Mae'r staff gofal yn ymgymryd â hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn deall eu cyfrifoldebau ynghylch rhoi gwybod am bryderon. Mae'r broses recriwtio yn cefnogi recriwtio staff yn ddiogel. Mae cyfleoedd hyfforddiant parhaus yn sicrhau bod y staff yn ddigon medrus i gyflawni eu dyletswyddau.  Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i ymwelwyr ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn, yn ogystal â chofnodi eu hymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth cadarnhaol. Gwelsom y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd caredig a chyfeillgar. Mae rhai aelodau o'r staff wedi gweithio yn y gwasanaeth am sawl blwyddyn a gwnaethant sôn sut y maent wedi datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Ategwyd pwysigrwydd hyn gan yr ymwelwyr y gwnaethom siarad â nhw a ddywedodd, "*The same carers, really helps that continuity.*" Dywed perthnasau y cânt wybod y diweddaraf a'u hysbysu am eu hanwyliaid. Mae'r staff gofal yn deall pwysigrwydd arferion dyddiol, gan i'r bobl ddweud wrthym eu bod yn dewis sut maent am dreulio eu diwrnod a ble. Mae ci unigolyn bellach yn byw yn y gwasanaeth a chaiff ei groesawu gan eraill sy'n byw yn y gwasanaeth, "*love the dog, we used to have them on the farm, he makes me happy."* Gwelsom y bobl yn rhyngweithio'n dda â'r ci ac aeth yr unigolyn ag ef allan am dro fel y bo angen. Mae'r trefniadau ymweld â'r gwasanaeth bellach wedi newid yn ôl i'r trefniadau a oedd ar waith cyn y pandemig. Mae'r rota staffio yn dangos bod digon o weithwyr gofal ar gael i ddarparu'r lefel gywir o ofal a chymorth. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hapus yn y gwasanaeth. Mae'r sylwadau'n cynnwys *"can't fault them"* ac, *"I am very happy*.

Mae'r gwasanaeth yn cwblhau cynlluniau personol a chaiff nodiadau dyddiol eu diweddaru mewn amser real yn electronig. Ceir manylion am ddewisiadau, diddordebau ac arferion y bobl yn y cynlluniau yn ogystal â manylion anghenion iechyd meddwl a chorfforol pob unigolyn ac mae'n rhoi canllawiau i'r staff ar sut i ddarparu cymorth. Er bod adolygiadau yn cael eu cwblhau nid ydynt yn fanwl nac yn dangos tystiolaeth bod y bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o'u cwblhau. Er nad yw'r mater yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y bobl, mae hwn yn faes sydd angen ei wella, a chaiff ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

Mae trefniadau diogel ar waith i storio, archebu a rhoi meddyginiaeth. Mae siartiau'r cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR) yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen a chânt eu cwblhau'n gywir. Dywedodd y gwasanaeth wrthym fod ganddo gydberthynas dda â'r gweithwyr iechyd proffesiynol a'r fferyllwyr. Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn cael hyfforddiant ar roi meddyginiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i feddu ar sgiliau digonol. Mae cwblhau archwiliadau meddyginiaeth rheolaidd yn sicrhau bod yr arferion yn parhau'n ddiogel ac yn effeithiol. Mae angen gwneud gwaith i sicrhau arferion gorau mewn perthynas â storio yn yr oergell meddyginiaeth. Nid yw'r mater hwn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y bobl. Fodd bynnag, mae hwn yn faes sydd angen ei wella, a chaiff ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r amseroedd bwyd yn brofiad cadarnhaol. Mae gan y cartref sgôr hylendid bwyd o 5 seren (sef y sgôr uchaf bosibl). Mae'r bwydlenni yn adlewyrchu dewisiadau'r bobl ac mae opsiynau amgen ar gael bob amser. Gall y bobl gael gafael ar luniaeth a byrbrydau fel y bo

angen drwy gydol y dydd. Dywedodd un unigolyn wrthym *“The food is fantastic”.* Gwelsom y bobl yn mwynhau spaghetti bolognaise i ginio, a oedd yn edrych ac yn arogli'n flasus.

## Yr Amgylchedd

Caiff y bobl ofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu a bod eu canlyniadau personol yn cael eu cyflawni. Gallant gael mynediad i ardaloedd o'r tir yn ddiogel, i gerdded ac ymarfer corff neu i fwynhau'r ardal awyr agored. Mae'r bobl sy'n dymuno cymryd rhan yn y garddio yn gwneud hynny ac yn gallu defnyddio polidwnnel. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cadw ieir yn unol â'r canllawiau cyfredol. Mae adeilad ar wahân sydd wedi cael ei addurno fel tafarn hefyd ar gael i'r bobl.

Mae'r rheolwr a'r staff yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas ar gyfer dewisiadau ac anghenion yr unigolyn lle y bo modd. Caiff yr ystafelloedd gwely eu personoli â dodrefn ac eitemau’r bobl o'u cartrefi eu hunain os dymunant. Mae'r cartref wedi cael ei addurno i safon uchel ac mae awyrgylch cartrefol yno. Mae'r staff yn ymfalchïo yn eu hamgylchedd ac yn cymryd gofal i sicrhau ei fod mewn cyflwr da, yn lân a heb unrhyw arogleuon annymunol. Mae'r lifft yn sicrhau y gall y bobl ag anawsterau symudedd ddefnyddio pob ardal.

Mae archwiliadau a rhaglen o brofion cyfnodol o'r cyfarpar yn dangos bod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cwblhau fel sy'n ofynnol. Gwelsom fod y cofnodion ar gyfer gwiriadau diogelwch, gosodiadau trydanol a chyfarpar codi wedi cael eu cwblhau o fewn y dyddiadau a argymhellir. Mae'r rheolwr a'r swyddog cadw tŷ wrthi'n cwblhau hyfforddiant ar glefyd legionella ac ar gofnodi tymereddau dŵr diogel. Caiff yr holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002

Mae arolygiad y gwasanaeth tân wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y cofnodion ar gyfer profion larwm tân yn cael eu cwblhau'n wythnosol a bod ymarferion tân yn mynd rhagddynt. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant tân yn ôl y gofyn. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u cwblhau ac ar gael i'r staff yn ôl y gofyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae tîm arweinyddiaeth a rheolaeth amlwg ac ymroddedig yn cefnogi'r bobl a'r staff. Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n dda iawn gan yr Unigolyn Cyfrifol. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod y rheolwr yn "*excellent*" ac yn *"so supportive*", a'i fod yn hawdd mynd ato er mwyn cael cymorth gyda'u hanghenion. O ganlyniad, mae'r lefelau morâl yn uchel ac mae'r tîm o staff yn ymddangos fel petaent yn mwynhau eu swyddi. Roedd yr adborth a gafwyd gan y staff yn cynnwys y canlynol:*" I love it "," it's amazing, great support"* ac o'i gymharu â gwasanaethau eraill, "*much better so kind, supportive."*

Mae'r trefniadau ar gyfer monitro ansawdd a llywodraethu yn galluogi'r gwasanaeth i nodi meysydd i'w gwella ac i weithredu'n effeithiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn rhyngweithio â'r bobl a'r staff er mwyn llywio gwelliannau. Caiff adroddiad ar ansawdd y gofal ei lunio bob chwe mis gan y gwasanaeth, sy'n tynnu sylw at gryfderau'r gwasanaeth a'r meysydd i'w datblygu. Mae AGC wedi rhannu templed â'r gwasanaeth i gefnogi'r gwaith o gwblhau'r adroddiad yn y dyfodol. Ni chaiff yr hysbysiadau statudol mewn perthynas â'r broses o redeg y gwasanaeth yn hwylus eu cwblhau. Ymdrinnir â hyn er mwyn sicrhau y gellir cael gafael arnynt ac er nad yw'r mater yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth mae hwn yn faes sydd angen ei wella, a chaiff ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth. Mae'r Datganiad o Ddiben yn gyfredol ac yn gywir. Mae'r nifer staffio yn cyfateb â'r hyn a nodir yn y datganiad o ddiben, gan gefnogi cymhareb staff i bobl uchel. Mae'r ddogfen ar gael yn Gymraeg. Mae'r model gofal sydd wedi'i gynnwys yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd yn ystod yr arolygiad yn gywir. Ar hyn o bryd, caiff y ddogfen hon ei defnyddio fel canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth hefyd. Caiff gwaith ei gwblhau i lunio canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth amgen.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod nifer ddigonol o weithwyr gofal gwybodus, cymwys a medrus ar gael i ddarparu cymorth priodol i'r bobl gyflawni eu canlyniadau personol. Caiff y staff eu sefydlu yn unol â fframwaith sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Caiff hyfforddiant parhaus ei ddarparu yn ôl y gofyn, megis hyfforddiant ar Godi a Chario, Hylendid Bwyd ac Atal a Rheoli Heintiau. Yn ogystal â hyn, caiff y staff hyfforddiant wyneb yn wyneb. Roedd matrics hyfforddiant y gwasanaeth yn cadarnhau hyn. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn rhoi cyfle i'r gweithwyr gofal drafod eu gwaith a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Cynhelir sesiynau goruchwylio yn rheolaidd ac mae camau gweithredu ar waith i gynnal trafodaethau mwy manwl. Mae polisïau a gweithdrefnau sy'n gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar waith i gefnogi'r staff. Gwelsom hefyd y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol a chaiff cyfarpar diogelu personol eu darparu a'u defnyddio yn ôl y gofyn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Ni chaiff meddyginiaeth ei storio'n briodol heb beri risg o gael ei halogi. | Newydd |
| 60 | Nid oedd rheoliad 60 wedi'i ddilyn ers mis Ionawr 2022 ac nid yw'r rheolwr wedi'i gynnwys ar y system i'w gwblhau | Newydd |
| 16 | Ni chaiff gwybodaeth am ganlyniadau'r bobl eu nodi'n fanwl yn yr adolygiadau, nac ychwaith wybodaeth am y broses o gynnwys y bobl yn ystod eu hadolygiadau. | Newydd |
| 35 | Nid yw'r darparwr wedi dangos gofal wrth gwblhau'r broses recriwtio er mwyn dangos tystiolaeth o eirdaon boddhaol, dull adnabod a rhesymau dros gyflogi. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/04/2023